# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2019

Amser: 08.30 - 09.36

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Ysgrifenyddiaeth y Siambr |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Yn eu cyfarfod ar 2 Ebrill, cytunodd y Rheolwyr Busnes, dros dro, i drefnu eitem ar y cyd â'r Senedd Ieuenctid ar 26 Mehefin. Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor nad yw'r manylion wedi'u cadarnhau eto, felly nid yw'r eitem ar y Datganiad Busnes ar hyn o bryd, ond y bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes yr wythnos nesaf.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 19 Mehefin 2019 –**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru (60 munud)~~ wedi'i gohirio tan 3 Gorffennaf

- Dadl ar Ddeiseb P-05-869: Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)

**Dydd Mercher 26 Mehefin 2019 -**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

# 4 Busnes y Cynulliad

## 4.1 Llythyr gan Dai Lloyd AC

Ar gais yr Aelod, cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer 19 Mehefin mewn perthynas â Rheoliadau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019.

## 4.2 Effaith newidiadau diweddar i aelodaeth grwpiau ar bwyllgorau.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i leihau maint y saith pwyllgor polisi a deddfwriaeth wyth-Aelod i chwe Aelod yr un. Gofynnwyd i swyddogion ysgrifennu at Blaid Brexit ac Aelodau Annibynnol i ofyn am eu dewisiadau ar gyfer y lleoedd sy'n weddill ar Bwyllgorau.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd y dylai dyraniad amser y Cyfarfod Llawn i grwpiau gwrthbleidiau ddilyn y gymhareb 11:10:4, er mwyn cynnal adlewyrchiad manwl o faint cymharol y grwpiau.

Nododd y Rheolwyr Busnes fod y Llywydd wedi cytuno i ganiatáu i Grŵp Brexit ofyn dau gwestiwn Arweinydd i'r Prif Weinidog, ac enwebu tri Gweinidog i ofyn dau gwestiwn llefarydd iddynt.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Cyngor cyfreithiol ar y cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 1.3

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y cyngor cyfreithiol ar y cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 1.3. Gofynnwyd i'r swyddogion ddrafftio adroddiad yn nodi pam eu bod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r newid ar hyn o bryd, ond i adolygu'r Rheolau Sefydlog perthnasol erbyn y chweched Cynulliad.

## 6 Y Pwyllgor Busnes

### 6.1 Coladu Canllawiau - Cwestiynau Llefarwyr

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y canllawiau cyfredol ar gwestiynau llefarwyr a chytunwyd i newid y geiriad ychydig, er mwyn caniatáu i'r cwestiynau wyro oddi wrth thema eang mewn amgylchiadau eithriadol. Felly, mae'r Rheolwyr Busnes wedi cytuno ar y canllawiau a gasglwyd yn eu cyfanrwydd ac fe'u cyhoeddir yn fuan.

## 7 Papurau i'w nodi - Y Pwyllgor Busnes

### 7.1 Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch slotiau gweinidogion ar ddydd Llun

### 7.2 Llythyr at y Prif Weinidog gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch slotiau gweinidogion ar ddydd Llun

Nododd y Rheolwyr Busnes y ddau lythyr, ac awgrymu y gallai Cadeirydd y Pwyllgor ddymuno codi'r mater o Weinidogion yn mynychu slotiau Pwyllgorau ar brynhawn dydd Llun yn Fforwm y Cadeiryddion.

## 8 Unrhyw Fater Arall

*Aelodau'r Pwyllgor Busnes*

Er bod Plaid Brexit yn gymwys i gael ei chynrychioli ar y Pwyllgor Busnes, cafodd y cynnig i ethol Caroline Jones fel aelod ei drechu ar 22 Mai. Mae'r Llywydd wedi derbyn cais gan Blaid Brexit i ail-gyflwyno'r cynnig i ethol Caroline Jones. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ail-gyflwyno'r cynnig a'i drefnu, dros dro, ar gyfer yfory, ond gofynnwyd i swyddogion wirio gyda Phlaid Brexit a oedd yr amseru yn briodol iddyn nhw.